Noswaith oer ar y meysydd gwynion
Wele'r eneth yn troi tua thre
Fflamie yn codi i'r awyr fel baner
Mynydd ar dan weli'r o'r dre

Caeau'n llawn gwenith yn symud fel moroedd
Gwynt yn y brigau yn gwychial eu llef.
Arogl tan yn ei ffroenau yn llosgi
Tawch ar ei thafod, cof yno'n gref.

Llosgi'r pontydd llosgi'r pontydd
Mwg a than dros wedd y gwledydd.

Sgerbwd o gartref heb do i gysgodi
Wele'r cysgodion yn dawnsio'n y lle
Aelwyd yn ddu 'da mwg yr ymwelwyr
Ni chawsant groeso dros drothwy y lle

Llosgi'r pontydd, llosgi'r pontydd
Pwy wnaiff godi'r pontydd a losgwyd.